

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Sadwrn, 4 Ionawr, 2014 yng Nghanolfan Rhyd Ddu

Presennol: Rhys (RD) - Cadeirydd ,Mark (MW),Sioned (SLJ), Iolo (IPR),Eryl (EO), Richard (RR), John (JP), Sian (SS)

Ymddiheuriadau: Anita, Dewi , Gareth , Iolo (ap Gwyn)

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain o Fedi 2013 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Gwefan y Clwb</u></p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none">1. Nodi bod canmoliaeth gyffredinol i wefan y clwb ar ôl ei haddasu yn ddiweddar gan Iolo ap Gwyn2. Diolch i Iolo ap Gwyn am ei waith caled yn addasu'r wefan dros y misoedd diwethaf3 Gofyn i IaG os oes modd i'r lluniau ar y dudalen flaen newid yn arafach a hefyd cael manylion y gweithgaredd nesaf yn sefydlog ar ben y dudalen flaen. Hefyd os oes modd cywasgu'r llun fel bod pob rhan o'r wyneb ddalen yn y golwg. <p><u>Mynyddoedd Pawb</u></p> <p>Adroddwyd</p> <ol style="list-style-type: none">1. Cynhaliwyd cynhadledd ym Mhlas Tan y Bwlch ar y 23ain o Dachwedd 2013 yn dilyn ymdrechion Mari Gwent (merch Llew) i weld y sgysiau y bu ei thad yn eu cynnal ym Mhlas y Brenin yn cael eu hatgyfodi a'u datblygu2. Yn y gynhadledd ystyriwyd y canlynol:<ul style="list-style-type: none">• Sut i ddiogelu a dathlu enwau'r mynyddoedd, eu nodweddion a'r tir• sicrhau'r parch dyledus i enwau Cymraeg gan ymwelwyr ac eraill• cyflwyno'r cyfoeth o hanes a chwedloniaeth sydd yn ein henwau lleoedd3. Adroddodd EO bod nifer o aelodau'r clwb wedi mynychu'r gynhadledd a bod pwyllgor wedi ei sefydlu gyda'r bwriad o wthio syniadau Mari yn eu blaen ac y byddai yn mynychu cyfarfod yn y dyfodol4. Cytunwyd gofyn i EO am adborth o'r cyfarfod sydd i'w gynnal a gofyn os yn ymarferol iddo yrru e-bost i aelodau'r clwb yn eu diweddarau ynglyn â sut y mae amcanion Mari am gael eu bwrw ymlaen.
2	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2014</u></p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none">1. Dylid, os yn bosib, cynnal darlith y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli eleni2. Gan nad oes safle addas arall, parhau i'w chynnal ym Mhabell y Cymdeithasau a hysbysu'r trefnwyr o'r problemau sy'n bodoli wrth geisio cynnal gweithgareddau o'r fath ynddi3. Cysylltu â theulu Llew i weld os ydynt yn hapus i ddefnyddio'r pennawd "Darlith Goffa Llew Gwent" ar ei chyfer. Os nad ydynt bydd yn rhaid ystyried pennawd arall i'r ddarlith4. Gellid ystyried cysylltu'r ddarlith â mynyddoedd y de ac o bosib newid ei phatrwm e.e. ei chyflwyno fel sgwrs rhwng dau unigolyn5. Awgrymwyd nifer o unigolion y gellir eu hystyried. Bydd RD yn holi rhai o aelodau'r Clwb yn y de am eu hawgrymiadau hwy

4	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO ei fod yn gweithio ar drefnu rhaglen weithgareddau am y cyfnod Mawrth i Awst</p> <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried os yw'n bosib cynnwys mwy o weithgareddau beicio yn y rhaglen • Gofyn i Guto Evans os byddai'n bosib iddo ystyried atgyfodi'r gweithgareddau dringo yn y de • Bydd RD yn trefnu taith i'r Iwerddon yn niwedd Mai 2014 • Gofyn i Dai a Cheryl os yn bosib trefnu penwythnos preswyl yn ardal Eifionydd (ar yr un patrwm â'r un a drefnwyd gan Bruce yn ardal y Preseli'r llynedd) naill ai yn nechrau Mai neu ddechrau Gorffennaf • Gofyn i SS drefnu un o'i nosweithiau cymdeithasol, o bosib yng Nghaffi Gwynant yn Nant Gwynant, cyn gwyliau'r haf os yn ymarferol neu fel arall yn yr Hydref • Cynnal penwythnos preswyl arall yn Ardal y Llynnoedd eleni ond mewn ardal wahanol y tro hwn
5	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2013</u></p> <p>Rhoddodd IPR adborth o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn y Bala yn Hydref 2013. Yn arbennig cyfeiriodd at y ffaith na dderbyniwyd unrhyw enwau newydd i wasanaethu ar bwyllgor y Clwb cyn y cyfarfod ac nad oedd unrhyw enwau wedi eu derbyn ers hynny chwaith. Yn y Cyfarfod Blynyddol, o'r herwydd, cytunwyd i'r aelodau presennol barhau am flwyddyn arall</p> <p>Cytunwyd y dylid gofyn i'r aelodau a enwyd yn y drafodaeth os byddent yn fodlon gwasanaethu ar bwyllgor y clwb</p> <p>Dylid anfon neges i Alun Hughes, y gŵr gwadd yn y cyfarfod i'w longyfarch ar lwyddiant ei ffilm ' Defaid a Dringo' mewn gwahanol gystadlaethau</p>
6	<p><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT</u></p> <p>Cytunwyd y dylid ystyried darparu'r cyrsiau canlynol</p> <p>Cwrs Rhaffau - gofyn i Arwel Roberts os byddai'n barod i drefnu Cwrs Cymorth 1af – gofyn i JP drefnu cwrs arall cyffelyb i'r un a wnaeth o'r blaen Cwrs Mordwyo Gwersylla</p>
7	<p><u>OFFER</u></p> <p>RD i drafod ag AD er mwyn cael diweddariad o'r sefyllfa ynglyn ag offer y clwb a'i gyflwr.</p>
9	<p><u>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</u></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>
10	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>
11	<p><u>CYFARFODYDD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn ystod mis Mai ar ôl un o deithiau'r Clwb ar ddydd Sadwrn</p>

